www.xtrapapers.com

M14/1/AXWEL/SP1/WEL/TZ0/XX

22140227

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A: LITERATURE – STANDARD LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS A : LITTÉRATURE – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 1**
**GALÉS A: LITERATURA – NIVEL MEDIO – PRUEBA 1**

Friday 9 May 2014 (morning)
Vendredi 9 mai 2014 (matin)
Viernes 9 de mayo de 2014 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Write a guided literary analysis on one passage only. In your answer you must address both of the guiding questions provided.
- The maximum mark for this examination paper is *[20 marks]*.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Rédigez une analyse littéraire dirigée d'un seul des passages. Les deux questions d'orientation fournies doivent être traitées dans votre réponse.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est *[20 points]*.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Escriba un análisis literario guiado sobre un solo pasaje. Debe abordar las dos preguntas de orientación en su respuesta.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es *[20 puntos]*.


© International Baccalaureate Organization 2014

www.xtrapapers.com



*Gan ddilyn yr arweiniad, ysgrifennwch ddadansoddiad llenyddol ar* ***un*** *darn yn unig. Yn eich ateb, rhaid ichi drafod y ddau gwestiwn arweiniol a roddwyd.*

**1.**

Brysiodd Martha tua'r cei gan symud y pecyn o'r naill law i'r llall rhag llosgi ei dwylo. Nôl yn y car, agorodd y bocs plastig a dechreuodd fwyta'r sglodion â'i bysedd. Gwyddai y byddai'r car yn drewi o saim a finegr am ddyddiau ond doedd arni hi ddim eisiau bwyta pryd ar ei phen ei hun mewn bwyty heno. Doedd arni hi ddim eisiau bwyta gartre mewn tŷ gwag chwaith.

Bob tro y byddai Elen yn mynd yn ôl i Gaerdydd ar ddiwedd penwythnos, byddai ton o unigrwydd yn llethu ei mam o'r newydd. Cofiai Martha'r adegau hynny, flynyddoedd yn ôl bellach, pan fyddai hi ac Elen yn dod i siopa yma yn Aberaeron a chael hufen iâ ar y cei cyn mynd adre. Ochneidiodd. Teimlai bellach fod Elen wedi gadael cartref go iawn. Roedd hi wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd ac yn mwynhau ei swydd gyda chwmni teledu annibynnol. A'r tro yma, teimlai Martha ei hunigrwydd yn waeth nag arfer oherwydd y geiriau croes fu rhyngddyn nhw cyn i Elen ymadael ar ddiwedd y penwythnos.

Ymhell wedi iddi orffen y sglodion, parhaodd Martha i eistedd yn y car yn syllu allan dros y cei. Gwyliodd wrth i'r haul droi'n belen fawr goch a dechrau suddo'n gyflym tua'r gorwel, gan saethu rubanau amryliw i bob rhan o'r awyr fel petai'n ceisio'i achub ei hun rhag y boddi beunyddiol. Rubanau, meddyliodd Martha, mae popeth yn fy mywyd i bob amser yn dod yn ôl i Rubanau.

"Ti a dy blydi Rubanau," meddai Elen wrthi'n flin awr neu ddwy'n ôl. "Elli di ddim meddwl am unrhyw beth arall? Beth amdana i? Sawl gwaith ydw i wedi gofyn i ti ddod i aros gyda fi yng Nghaerdydd? Ond bob tro, mae Rubanau'n bwysicach na dod i 'ngweld i'n canu gyda'r côr neu fynd i gyngerdd gyda fi."

"Ond Elen fach, mae Rubanau wedi bod yn waith oes i fi."

"Rubanau, Rubanau – dw i 'di cael llond bol arno. Dw i'n gwbod dy fod ti wedi gweithio'n galed i wneud y cwmni'n llwyddiant a dw i'n gwbod dy fod ti wedi ennill y tair gwobr yna am ddiwydiant cartre'r flwyddyn. Ond Mam, mae bywyd yn symud ymlaen. Dw i'n symud ymlaen. Pam na elli di hefyd? Oes arnat ti ddim eisiau gwneud rhywbeth gwahanol, bod yn rhydd i fwynhau tipyn cyn ei bod hi'n rhy hwyr?"

Bellach, roedd yr haul coch wedi diflannu a'r gwyll yn ymestyn dros bob man. Cododd Martha allan o'r car er mwyn taflu bocs plastig y sglodion yn y bin yng nghornel y cei. Wrth iddi droi'n ôl, canodd ei ffôn. Atebodd Martha ar unwaith. Tybed ai Elen oedd yn ffonio i gymodi?

"Helô, Martha, Ros sy fan hyn. Jyst gwneud yn siŵr fod popeth yn iawn ar gyfer sioe Llanarthur ddydd Sadwrn. Ydy'r rhosedi a'r rhaglenni'n barod?"

"Ydyn, Ros, fe gân nhw'u postio fory."

"Diolch, Martha, rwyt ti bob amser mor drefnus. Ond dyma 'mlwyddyn ola i'n trefnu'r sioe ac ro'n i isie gwneud yn siŵr."

Wrth i Martha orffen yr alwad, sylwodd ar fwrdd ar bostyn pren y tu allan i un o'r tai ar un ochr i'r cei. "Ar werth, fflat foethus â dwy stafell wely."

Daeth geiriau Elen yn fyw i'w meddwl. "Oes arnat ti ddim eisiau gwneud rhywbeth gwahanol?" Syllodd Martha ar yr hysbyseb, yna trodd ar ei sawdl a brysio'n ôl i'r car. Ych, roedd hi'n oeri'n gyflym. Wrth iddi yrru adre, dychmygodd sut y byddai hi i fyw mewn fflat fechan foethus ar lan y môr yn lle mewn tŷ mawr gwag yn y wlad…

www.xtrapapers.com



[…] Meddyliodd, ’falle bod Elen yn iawn – ’falle fod Rubanau’n rhy bwysig iddi. A hithau wedi cael ei gadael yn weddw ifanc ugain mlynedd yn ôl, roedd Martha wedi ei chael ei hun mewn sefyllfa lle’r oedd angen gwaith arni – gwaith oedd yn caniatáu iddi ofalu am Elen ar y cyd â gwneud bywoliaeth. Yn y pentref yng nghefn gwlad Ceredigion lle’r oedd hi’n byw, doedd dim llawer o gyfleoedd. Ond wedi iddi daro ar y syniad o sefydlu Rubanau, ’wnaeth hi byth edrych yn ôl. […]

Yna agorodd ei llyfr cysylltiadau. Â’i llaw ar y ffôn yn barod i ddechrau, meddyliodd eto am Elen. “Mae bywyd yn symud ymlaen. Pam na elli di?” Gwelodd rywbeth arall yn llygad ei meddwl hefyd. “Fflat foethus â dwy stafell wely…”. Dechreuodd Martha ddeialu rhif. Ond nid un o rifau’r llyfr cysylltiadau oedd e.

Helen Emanuel Davies, “Rubanau”, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a’r Fro* (2011)

(a) Beth a ddysgwch yn y darn am berthynas Martha a’i merch?

(b) Trafodwch y defnydd o ddelweddau yn y darn.

www.xtrapapers.com



**2.**

### Dangosaf iti lendid

Dere, fy mab,
i weld rhesymau dy genhedlu,
a deall paham y digwyddaist.
Dangosaf iti lendid yr anadl sydd ynot,
dangosaf iti'r byd
sy'n erwau drud rhwng dy draed.

Dere, fy mab,
dangosaf iti'r defaid
sy'n cadw, mewn cusanau, y Gwryd yn gymen,
y fuwch a'r llo yng Nghefen Llan,
bysedd-y-cŵn a chlychau'r gog,
a llaeth-y-gaseg ar glawdd yn Rhyd-y-fro ;

dangosaf iti sut mae llunio'n gain
chwibanogl o frigau'r sycamorwydd mawr
yng nghoed dihafal John Bifan,
chwilio nythod ar lethrau'r Barli Bach,
a nofio'n noeth yn yr afon ;

dangosaf iti'r perthi tew
ar bwys ffarm Ifan a'r ficerdy llwyd,
lle mae'r mwyar yn lleng
a chnau y gastanwydden yn llonydd ar y llawr ;

dangosaf iti'r llusi'n drwch
ar dwmpathau mân y mwsog ar y mynydd ;

dangosaf iti'r broga
yn lleithder y gwyll,
ac olion y gwaith dan y gwair ;

dangosaf iti'r tŷ lle ganed Gwenallt*.

Dere, fy mab,
yn llaw dy dad,
a dangosaf iti'r glendid
sydd yn llygaid glas dy fam.

Dafydd Rowlands, *Meini* (1972)

---

* Gwenallt: (D James Jones) 1899 – 1968; bardd ac ysgolhaig a aned ym Mhontardawe yn sir Forgannwg.

www.xtrapapers.com



(a) Beth yn eich barn chi y mae'r bardd yn ceisio ei ddweud wrth ei fab am y byd o'i gwmpas?

(b) Sut y mae ffurf ac arddull y gerdd yn ychwanegu at ei heffaith?